

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**  
**SWYDD-DDISGRIFIAD**

<b>Adran</b>	Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau (PG a Ch)
<b>Swydd</b>	Pennaeth Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
<b>Rhif y Swydd</b>	502200
<b>Gradd</b>	17 (yn amodol ar werthusiad swydd)
<b>Lleoliad</b>	Pencadlys y Gwasanaeth Tân
<b>Yn gyfrifol i'r</b>	Pennaeth Cymorth Corfforaethol
<b>Yn gyfrifol am</b>	Reolwyr PG a Ch – Rheolwr Ystadegau, Risg a Pherfformiad, Rheolwr Y Wasg, Marchnata a Chyfathrebiadau a Rheolwr Gwybodaeth.
<b>Cyfrifoldeb dros Adnoddau Ariannol</b>	Cyllideb Gyfredol o £102,000

**Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth**

**PRIF BWRPAS Y SWYDD**

I fod yn gyfrifol am reolaeth strategol y tîm Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau wrth gefnogi'r Sefydliad ehangach mewn perthynas â'r canlynol:

- Ystadegau, Dadansoddi, Risg ac Adrodd
- Ymgysylltu, Trawsnewid, Rheoli Perfformiad/Prosiect a Chynllunio Busnes
- Y Wasg, Marchnata, Cyfathrebiadau a Dylunio
- Rheoli Gwybodaeth

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

**Perfformiad, Cynllunio, Trawsnewid ac Ymgysylltu**

1. I fod yn bennaf gyfrifol am adolygu, cyd-lynu a gwella'n barhaus Fframwaith Strategol a Chynllunio Gwelliant y Gwasanaeth (neu fframweithiau eraill o'r fath sy'n ofynnol i'r Gwasanaeth gyflawni).
2. I gadw'n gyfredol â newidiadau mewn deddfwriaeth i adnabod newidiadau ac effeithiau tebygol i'r dyfodol i'r Gwasanaeth a sicrhau bod y

Gwasanaeth yn cyflawni'i ddyletswyddau statudol mewn perthynas â phob deddfwriaeth sy'n ymwneud â rheoli perfformiad gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Y Fframwaith Cenedlaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3. I sicrhau bydd Cynlluniau Busnes y Gwasanaeth yn cyfannu a chefnogi'r Weledigaeth a Chyfeiriad Strategol trosfwaol.
4. I gynrychioli'r Gwasanaeth ar Raglen Grŵp Llywio Gwelliant Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ac ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a deddfwriaeth berthnasol arall.
5. I weithio'n agos â'r UDRh wrth arwain, cefnogi, darparu, mesur ac adrodd newid trawsnewidiol ar draws y Gwasanaeth.
6. I hyrwyddo, annog a chynghori'n weithredol ar welliant parhaus ar draws holl feysydd y Gwasanaeth drwy ddefnyddio technegau fel meddwl systemau main, wrth gysylltu ag ac wrth rwydweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub ac asiantaethau eraill i rannu arferion gorau.
7. I gynllunio, datblygu, monitro a rheoli Fframweithiau a Systemau Perfformiad, Cynllunio, Risg, a Phrosiect Corfforaethol.
8. I oruchwylio a chefnogi'r Grŵp Ymgysylltu Cymunedol (GYC) wrth weithredu Strategaeth Ymgysylltu Gymunedol y Gwasanaeth.
9. I fod â rheolaeth gyfansymiol dros y System Gwybodaeth Rheoli Busnes ac i sicrhau y'i cynhelir, datblygir, cefnogir a'i hadnoddir i gwrdd â gofynion y Gwasanaeth.

### **Ystadegau a Risg**

10. I reoli a goruchwylio paratoi adroddiadau ystadegol a arweiniwyd gan ddata ar bob mater sefydliadol i'r Awdurdod Tân, Tîm Arwain Gweithredol (TAG), UDRh a chyfranddalwyr arall.
11. I sicrhau bod gan y tîm Ystadegau a Risg fynediad at y systemau TGCh mwyaf priodol a phellgyrhaeddol i hwyluso casglu, dadansoddi ac adrodd data mewn modd ansoddol ac amserol.
12. I gael rheolaeth gyfansymiol dros fodel Cwmpasiad Argyfwng y Gwasanaeth Tân (CAGT) ac i sicrhau ei ddyfodol neu ddyfodol system proffilio risg amnewidiol cymeradwy a'i ddatblygu, ei gefnogi a'i adnoddu.
13. I gael cyfrifoldeb gyfansymiol dros System Cofnodi Digwyddiadau electronig ar draws y Gwasanaeth gan gynnwys gweinyddu, sicrhau ansawdd a datblygu'r system i'r dyfodol.

14. I gefnogi cyfarwyddiaethau, adrannau, timau ac eraill (e.e. ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth) mewn perthynas â phob agwedd o gasglu data a dadansoddi ac adrodd tueddiadau.
15. I oruchwylio cynllun, datblygiad, rheolaeth a gwelliant parhaus matrices risg y Gwasanaeth. Darparu dealltwriaeth glir o risg o fewn ardal Gwasanaeth GTA De Cymru i'r UDRh ac adrannau.
16. I sicrhau bydd rhannu a mynegi data a gwybodaeth gymhleth i staff a phartneriaid allanol yn briodol ac wedi'i gynllunio i gwrdd ag anghenion a dealltwriaeth ein cwsmeriaid.

### **Y Wasg, Marchnata a Chyfathrebiadau**

17. I oruchwylio a chefnogi rheolaeth effeithiol tîm Y Wasg, Marchnata a Chyfathrebiadau'r Gwasanaeth.
18. I reoli datblygiad, cynllunio strategol, gweithrediad a gwerthusiad y Strategaeth Gyfathrebu, Ymgysylltu a Chyfathrebu Digidol wrth gwmpasu pob agwedd o swyddogaethau cyfathrebu mewnol ac allanol y Gwasanaeth.
19. I oruchwylio a chefnogi rheolaeth effeithiol polisïau a gweithdrefnau Gwasg a Chyfathrebiadau'r Gwasanaeth gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) weithdrefn gyfathrebiadau corfforaethol ac ymateb i ddigwyddiadau, cynllunio ymgyrchoedd a digwyddiadau, cynllunio cyfathrebiadau argyfyngau, rheoli enw da, hunaniaeth gorfforaethol a brandio'r Gwasanaeth.
20. I gynrychioli GTADC mewn grwpiau partneriaeth, fforymau, cyfarfodydd ac ymarferiadau cyfathrebu strategol, (e.e. Y Grŵp Cyfathrebiadau Cymru Gyfan, meysydd Lleihau Risg Cymunedol Cymru Gyfan, ymarferiadau sengl/aml-asiantaeth mewnol ac allanol - Aur ac Arian)
21. Mewn cydweithrediad â Rheolwr Y Wasg a Chyfathrebiadau, i fod yn brif fan cyswllt i'r cyfryngau cenedlaethol ac ymateb i ymholiadau a cheisiadau cyfryngol yn briodol. I gefnogi a goruchwylio ymgyrchoedd cenedlaethol/sesiynau tynnu lluniau/lansiadau cyfryngol a digwyddiadau eraill i hyrwyddo a hysbysebu negeseuon, polisïau a mentrau arbennig i gynorthwyo'r Gwasanaeth a'i bartneriaid i gwrdd â'u hamcanion perfformiad
22. I oruchwylio datblygiad a chyflawniad gwefanau Rhynggrwyd, Mewnrwyd a gwefannau rhyngweithio cymdeithasol y Gwasanaeth i'r dyfodol.
23. I sicrhau fod gan Dîm y Wasg a Chyfathrebiadau fynediad i'r systemau a'r meddalwedd fwyaf priodol i sicrhau y cynhyrchir pob cyfathrebiad cyfryngol mewnol ac allanol yn greadigol a phroffesiynol.

## **Rheoli Gwybodaeth**

24. I oruchwylio a chefnogi rheolaeth effeithiol Tîm Rheoli Gwybodaeth y Gwasanaeth.
25. I sicrhau bydd gan y Tîm Rheoli Gwybodaeth fynediad at systemau a meddalwedd TGCh priodol i sicrhau cyflawniad priodol pob cyfrifoldeb statudol
26. I reoli datblygiad, gweithrediad a gwerthusiad strategaethau, polisiau, gweithdrefnau a chyfarwyddiadau Rheoli Gwybodaeth y Gwasanaeth sy'n cwmpasu pob math o ddata a gwybodaeth a ddelir gan y sefydliad.
27. I sicrhau y cynllunnir, gweithredir a gwerthusir rhaglen hyfforddi rheoli gwybodaeth briodol a digonol sy'n addas i ofynion staff.

## **Rheoli Cyffredinol**

28. I reoli perfformiad yr adran, drwy law cynllunio, monitro, mesur ac adrodd effeithiol yn erbyn targedau a osodwyd, gan gynnwys adolygiadau perfformiad rheolaidd adrannau, timau ac unigolion.
29. I gynrychioli'r Gwasanaeth mewn materion perthnasol gan gynnwys cyrff allanol megis Swyddfa Archwilio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ati.
30. I gynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol ill dau i ddylanwadu ac ystyried datblygiadau allanol fydd yn effeithio ar y sefydliad gan gynnwys meincodi.
31. I fynychu cyfarfodydd yr UDRh i ddylanwadu a chynorthwyo wrth ffurfioli a gweithredu polisi ar hyd y Gwasanaeth pan a phryd fo'n ofynnol.
32. I sicrhau, drwy law datblygu a strwythuro tîm, yr adeiladir hydwythedd a hyblygrwydd i'r tîm, gan gynnwys recriwtio, datblygu a dyrchafu staff.
33. I reoli a thafoli llwythau gwaith yr adran i sicrhau bydd adnoddau digonol ar gael o fewn pob tîm i gwrdd â gofynion.
34. I reoli cyllid yr adran fel y targedir adnoddau yn effeithiol, y monitrir gwariant ac y cyfrifir am arian.
35. I reoli cydberthnasau mewnol ac allanol â chyfranddalwyr allweddol drwy law cyfathrebiadau rheolaidd i egluro'r rôl bwysig a chwaraeir gan PG a Ch wrth gefnogi cyfeiriad a Gweledigaeth y Gwasanaeth.
36. I sicrhau bydd gan bob tîm fynediad at systemau a meddalwedd TGCh briodol i sicrhau y cyflawnir pob cyfrifoldeb statudol yn briodol.

## **GOFYNION GWASANAETH SAFONOL**

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurool â'r raddfa a'r swydd
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd

## **GWERTHOEDD SEFYDLIADOL**

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth ar bob adeg, megis bod:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

D.S: Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru ac, ar adegau, ymhellach. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.



